874.h27
1-3

RHAI

HYMNAU Newyddion,

Ar FESURAU Newyddion:

Gan W. WILLIAMS.

YR AIL ARGRAPHIAD.

ABERHONDDU, Argraphwyd gan *E. Evans*, 1782.

HYMN I. *Ar Fesur* HALELUIA.

TEithio 'rwyf fynyddau maith, dyrus anial,
A gelynion ar fy nhaith, fy'n fy attal;
Ond mi wela'm hyfryd wlad, trwy'r ehangder,
Ac i mewn i dŷ fy Nhad, dof ar fyrder.

Mi ga gongcweſt yno'n lân, ar elynion,
Nwydau oedd yn curo o'r blaen, arnai'n gyſon;
Ni ddaw pechod o unrhyw, fyth i'm blino,
Na'r demtaſiwn orau ei lliw, i mewn yno.

Ond llawenydd fel y môr, fy wrth ei orſedd,
A thangnefedd ddwyfol 'ſtor, fyth heb ddiwedd;
Mi gaf drachtio'r hyfryd hedd, ffynnon bywyd,
Sydd yn taruddu o waelod bedd fy Anwylyd.

HYMN II.

Mi ro' ffarwel berffaith glir, i deganau,
Ag a'm daliodd I yn hir yn eu rhwydau;
'Nawr â Gwrthddrych gwerthfawr 'rwi'n mewn gwir undeb,
Cwlwm yw a bery trwy dragwyddoldeb.

Ac yn haeddiant dwyfol glwy', bydd fy nhrigfan,
Fyth ni cheisiaf dryfor mwy nag E' ei hunan;
Yn ei boen a'i farwol friw mae fy mywyd,
A'i ddioddefaint perffaith yw fy ngwir iechyd.

Ac am dano boed fy nghân, doed a ddelo,
Fe yn unig ſydd o'm blaen, yn congcwero;
Ar ei allu rhoi fy mhwys, ni ofnaf niwaid,
O'r cyſtuddiau mwya eu pwys, ef a'm gwared.

HYMN III.

O *Galfaria* llifodd hedd, dwyfol dirfin,
Congeweſt uffern, angau a'r bedd, maith diderfyn;
Dyna'n awr a thyna'r fan, clwyfwyd hwythau,
Ac a gurodd f'enaid gwan, fil o weithiau.

Dyma'r ffrwythau gwerthfawr iawn, melus hyfryd,
Ga'w'd yn pyngo un prydnhawn, ar Bren y bywyd;
Dyma'r pomgranadau pur, doniau dwyfol,
Ac a'n dwg o'r anial dir, i'r wlad nefol.

Bellach ninnau caru wnawn ein Hanwylyd,
Yn ei angau gwerthfawr llawn, cawſom tywyd;
Tan ei aden gynnes glud, boed in' dreulio,
A difyrru'n hoes o hyd, nes el heibio.

HYMN IV.

Y Noſweithiau hirion ſy 'mron myn'd heibio,
A'r cymmylau tywyll du, ſydd yn cilio;

Fe

Fe ddaw'r haf â'r egin gwan, i dawn fywyd,
A hwy ddygant yn y man, ffrwythau hyfryd.

Dyddiau hyfryd dwyfol ras, ddaeth o'r diwedd,
Ac fe dyrr effeithiau ma's, nefol rhyfedd;
Fe ddaw gwinllan f' Arglwydd mawr, i oreſgyn,
Anial fannau pella'r llawr, heb un terfyn.

Pan agorwyd teml Duw, daeth i'r golwg,
Arch ei ammod newydd wiw, yn bur amlwg;
Yr Efengyl hyfryd lân, i gongcwero,
Ac i gario oll o'i blaen, ffordd y cerddo.

HYMN V.

DAeth fy nghoelbren dwyfol gwir, im' â gwynfyd
Etifeddiaeth *Salem* bur, tir y bywyd;
Lle mae uffern, angau a'r bedd wedi eu maeddu,
A llawenydd pur a hedd yn teyrnaſu.

Yno cadwai ngolwg wiw, doed a ddelo,
Yn ddedwyddaf byddaf byw, er fy mlino;
Mae nhryſorau i o bob rhyw, yn guddiedig,
Yn fy Mhrynwr ſerchog gwiw, a fy Meddyg.

Rhaid i dywyllwch ffoi o flaen ei ddiſgleirdeb,
Fflam angerddol ddwyfol dân, yw ei wyneb;
Mae'r eymmylau ſy'n orynhoi, 'n gorfod cilio,
Am fod rhaid i bob peth ffoi, a'i gwth'nebo.

HYMN VI.

YCwbl feddai oll yn un,
O entrych nen i'r llawr,
A ro'w'd ynghadw 'nghyd tan ſêl,
Yn haeddiant IESU mawr.

Dewch ac yfwch o'r bendithion,
Sydd yn lliſo fel yr afon,
O *Galfaria* maes yn gyſon,
Maith gyflawnder, maith gyflawnder,
Heb na therfyn fyth na thrai.

Mae yma ffyhnon ſy'n glanhau
Budreddi brwnt yn lân,
A hyfryd olchi'r ffiaidd câs,
Yn loyw fel y gwlan;
Dewch ac yfwch o'r bendithion, &c.

'Does unrhyw gyfiwr âs y ne',
A glywyd am dano ſôn,
Ac pwyſa ei anwireddau fwy
Na gwerthfawr waed yr Oen;
Dewch ac yfwch, &c.

Maddeuant ſy yma perffaith lawn,
I'r cyſtuddiedig rai,
Mae'r haeddiant fry yn clirio'n lân,
Bob rhyw aneirif fai;
Dewch ac yfwch, &c.

HYMN VII.

'RWI'n trigo mewn aniahwch maith,
Gwlad galar a gwlad gwae,
A rhemtaſiynau ar fy nhaith,
Sy mron a'm llwſwrhau;
Dyna'r man y gwna I fy nhrigfan,
O fewn muriau'r nef ei hunan,
Uwchlaw cyrraedd byd a ſatan,
Dinas gadarn, dinas gadarn,
Ar anfeidrol ddwyfol graig.

Mae'r gwyntoedd poethion, ſychion, cry',
Yn chwythu yn eu grym,
Taranau a chymmylau du,
Sy'n bygwth niwaid im';
Dyna'r man, &c.

Pwys fy anwiredd o bob rhyw,
Ydyw a'm gwnaeth I'n wan,
F'euogrwydd ynte megis baich,
Sy'n rhwyſtro I fyn'd i'r lan;
Dyna'r man, &c.

'Rwi

'Rwi'n diſgwyl am yr hyſryd awr,
'R â fy nghadwynau'n rhydd,
Ac mi orfoleddo 'nawr,
Wrth feddwl am y dydd ;
Dyna'r man, &c.

HYMN VIII.

YMhlith holl ryfeddodau'r nef,
Hwn yw y mwyaf un,
I weld anfeidrol ddwyfol Fod,
Yn gwiſgo nattur dyn ;
Mae ynddo dryſor fel y cenfor,
Byth ni cheiſiaf ddim yn rhagor,
Hedd a bywyd yw ei ffafor :
Nefoedd berffaith, nefoedd berffaith,
Yw cael trachtio ei ddwyfol hedd.

Ni chaiff bod eiſiau byth na thrai,
Tr'o ſeren yn y ne',
Ar neb o rhei'ny roddo'u pwys,
Ar ei gyfiawnder E' ;
Mae ynddo dryſor, &c.

Doed y trueiniaid yma 'nghyd,
Yn fintioedd heb ddim rhi',
Cânt eu diwallu oll yn llawn,
O ras y nefoedd fry ;
Mae ynddo dryſor, &c.

Fe ylch ein beiau ffwrdd â'i waed,
Fe'n canna ni oll yn wyn,
Fe'n dwg ni o'r anial maith i maes,
I ganu ar *Seion* fryn ;
Mae ynddo dryſor, &c.

HYMN IX.

FY Iesu, Brenhin nef a dae'r,
Ei hunan unig yw,

Trwy bwrcas llawn ei werthfawr waed,
Iachawdwr dynol-ryw ;
Aed ei air i blith y werin,
Sy'n y dwyrain a'r gorllewin,
Fel bo'i enw mawr heb derfyn,
Canu iddo, canu iddo,
Haleluia gylch y byd.

Mae clywed newydd am ei waed,
Yn llifo ar *Galfari*,
Yn un o'r pethau mwya ei fraint,
A fedd ein daear ni ;
Aed ei air, *&c.*

Fe câr y *Negro* tywyll dû,
E'n hyfryd maes o law,
Pan tywynno gwawr Efengyl gras,
I dir yr *India* draw ;
Aed ei air, *&c.*

Ac mi ddiſgwylia'r hyfryd awr,
Boreuddydd *Jubili*,
Pan delo holl dylwythau'r byd,
I deithio i *Galfari* ;
Aed ei air i blith y werin, *&c.*

HYMN X.

O Dewch genhedloedd, dewch yn un,
Tros rwyſtrau maith eu rhi',
A gwir ryfeddwch tra f'och byw,
Ddioddefaint *Calfari* ;
Clod diderfyn fo i'r Brenhin,
Ddaeth o *Jeſſe* hardd flaguryn,
Alpha, *Omega*, dwyfol wreiddyn,
Ffynnon bywyd, Ffynnon bywyd,
I rai'n teithio 'ngwres y dydd.

Fe dalodd yr anfeidrol ſwm,
Fel Meichiau yn ein lle,

Ac

Ac felly fe gymmododd holl
  Briodoliaethau'r ne' :
Clod diderfyn fo i'r Brenhin, &c.

Mae cofio heddyw am ei waed,
  O flaen yr orfedd fry,
Yn creu heddwch dwyfol pur,
  I'r holl grediniol ri' :
Clod diderfyn fo i'r Brenhin, &c.

Fe ddwg ei Saint i'r auraidd fan,
  Y dringodd iddo ei hun,
A hwy gânt wel'd y dwyfol wedd,
  A wifgodd nattur dyn :
Clod diderfyn, &c.

HYMN XI.

WEL dyma gyfoeth gwerthfawr llawn,
  Uwch holl dryforau'r llawr,
Wedi ei roi gadw oll ynghyd,
  Yn haeddiant Iesu mawr ;
Boed tragwyddol barch a moliant,
Fyth i Frenhin y gogoniant,
Ar ei 'Fengyl wen bo'r llwyddiant ;
  I ddwyn heddwch, i ddwyn heddwch,
  I derfynau eitha'r byd.

Ei gariad lifodd ar y bryn,
  Fel moroedd mawr didrai,
Ac fe bwrcafodd yno hedd,
  Tragwyddol i barhau ;
Boed tragwyddol barch a moliant, &c.

Ei gariad bery pan bo'r byd,
  A'r haulwen fawr yn ddim,
Ac nid oes gariad yn y byd,
  Gyffelyb idd i'w rym :
Boed tragwyddol barch a moliant, &c.

HYMN

HYMN XII.

A gyfanſoddwyd ar Ddeiſyfiad y Parchedig Mr. D. JONES, *o* Langanna. *Ar Feſur newydd.*

Y Cyſur i gyd, ſy'n llanw fy mryd,
Bod gennyf dryſorau uwch gwybod y byd;
Ac er bod hwy 'nghudd, na's gwel hwynt ond ffydd,
Cair eglur ddatguddiad o honynt ryw ddydd.

Rhodd y'nt rowd yn rhad, gan Ieſu a'n Tad,
A brynwyd yn gyflawn, trwy gleiſiau a gwa'd;
Fel b'ai gennym ble, a haeddiant i'r ne',
Trwy rinwedd y poenau ddioddefodd efe.

Anfeidrol oedd llid Creawdwr y byd,
Yn erbyn y pechod ſy'n damnio o hyd;
Ond Tywyſog a ga'd a gollodd ei wa'd,
Fe brynodd faddeuant a heddwch y Tad.

Ffordd wnaethpwyd yn llyn, ar *Galfari* fryn,
I fierach paradwys nag goll'ſom cyn hyn;
Ac yno ni gawn i yfed yn llawn,
O wleddoedd y bywyd heb forau na nawn.

HYMN XIII. *Ar yr un Meſur.*

FY nghyſur mawr iawn, foreuddydd a nawn,
Fod afon y bywyd â'i dyfroedd yn llawn;
Gall f'enaid fydd wiw, gan feiau o bob rhyw,
I yfed o'r afon dragwyddol [illegible]

A thyma fy m[illegible] orfeddu'n ſa[illegible]
Wyf cuog, w[illegible] ond cyflawn [illegible]
Yn unig ei [illegible] hollol iachâd,
A'i allu anfe[illegible] 'm nerth a'm parhâd.

Wel bellach [illegible] trwy ddwys a thrwy [illegible]
Er cymmaint [illegible] ſe'u talodd hwy'n llawn;
Moliannu m[illegible] bydd fy nghlyder bob dydd,
'Nol agor y [illegible] fodd'n bruddo'.

HYMN XIV. *Ar yr un Meſur.*

FE Bywyd y byd, a'i degwch ynghyd,
Ar groesbren a brynodd fy enaid yn ddrud;
E dalodd yn awr dryſorau mor fawr,
Nad oes mo'u cyffelyb mewn nefoedd a llawr.

Ei glwyfau a'i wa'd, yn unig a ga'd,
Yn deilwng o ennill tangnefedd fy Nhad;
Boed bellach fy nghan, a'm ymffroſt yn lân,
Am ddwyfol ddioddefaint a'm tynnodd I o'r tân.

Wel Iesu mwy fydd fy noddfa bob dydd,
O ddyfnder pydewau a'm rhoddodd I'n rhŷdd;
Ni feddai'n iachâd un dim ond ei wa'd,
Fy heddwch a'm haeddiant, fy nerth a'm parhâd.

HYMN XV.

GAD im' Arglwydd tra fwy' byw i gael gwledda,
Ar dy ddwyfol farwol friw, y gwir fanna;
Dy ddioddefaint yw fy nerth, a fy iechyd,
Tros y bryniau mwya ſerth i dir y bywyd.

Y mae chwantau yn lleſgau, yngwedd d'wyneb,
Congcweſt bythol i barhau yw'th breſenoldeb;
Gyd â thi mi anturia trwy lu o elynion,
Mae dy allu'n llawer mwy nâ'm caſeion.

Iddwydd yw fy'n profi'th hedd, a'th gymmun'eb,
Deuwydd yw fy'n gweled gwedd dy lân wyneb;
Dy gyfeillach nefol wiw, fy'n gwir fywyd,
A dy heddwch nefol yw 'm perffaith iechyd.

HYMN XVI.

IESU cymmer fi'n dy go'l, rhag deffygio,
Na'd fy enaid bach yn ol, fy'n cyrwydro;
Arwain fi trwy'r anial maith, aml rwydau,
Fel na flinwi ar fy nhaith, nes myn'd adref.

Rho dy heddwch tan fy mron, Ffynnon loyw,
Ffrydiau tawel nefol hon, fyth a'm ceidw;
Os cai drachtio'r dwfr pur. mi drafeula,
Fryniau ucha'r anial dir, ni ddefiygia.

Gwedd dy wyneb ſiriol ſy yn gorchfygu,
Y gelynion creulon cry', oedd yn maeddu;
Gwedd dy wyneb ſerchog yw fy holl iechyd,
Dyna alwai tra fwi byw, im' yn wynfyd.

HYMN XVII.

O Tyred addfwyn Oen, Iachawdwr dynol-ryw,
At wael bechadur ſy tan boen ac ofnau'n byw;
O helpa'r lleſg yn awr, i ddringo o'r llawr yn hy',
Tros greigydd geirwon ſerth, i'r lan i *Ganaan* fry.

Mae'r gelyn llym o hyd yn leſio ei danllyd ſaeth,
A minnau'n ofni cai ryw bryd i deimlo ei brath;
O ſewn dy fynwes bur, dwg fi i dir fy ngwlad,
I gael meddiannu'r 'ddewid wir, a brynodd gwa'd.

O dal fi, 'rwyf heb rym, yr ochr hyn na thraw,
Os ſefyll wnai, ni ſarai ddim ond yn dy law;
Addewid ſefoedd faith yw'm cymorth perffaith wir,
Na chyfeiliornaf ar fy nhaith i *Salem* bur.

Yn eitha grym y dw'r, a'r tonnau'n euro lawr,
Tywyſog nefoedd yw fy Nhwr a'm Ceidwad mawr;
Fe ddeil fy mhen i'r lan, can's Ffrynd i'r gwan yw ef,
Fe'm dwg o'm cyſtudd yn y man, i deyrnas nef.

Dewch bellach yn eich grym, elynion llym yn haid,
Er maint eich nifer faeddwch ddim o'r dwyfol blaid;
F'a'r lluoedd ar' i taith trwy'r dyfroedd maith ymla'n
I'r wlad ſy'n lliſo o fel a llaeth, y *Ganaan* lân.

HYMN XVII.

PE ai'r ddaear fawr ei rhod, lawr i'r dyfnder,
A phe'r cyfan ſy arni'n bod a ddiddyfner;

Ar

...ci gariad dwyfol pur, a'i drugaredd,
...ydd fy ngobaith cadarn clir, hyd y diwedd.

...e ai dynion fawr a mân, im'n elynion,
...c ymddifad awn yn lân, o gyfeillion;
...n yw Nghyfaill a fy Nuw, Frawd ffyddlona,
...linnau'n farw ac yn fyw, fyth a'i cara'.

...e doi cyſtudd yn ei rym, i fy nhreio,
...waſgu'r eiddil gwan yn ddim, a'i gongcwero;
...drych wnawn i'r dwfn fedd, ac ni'm ſyflid,
...nd cael teimlo nefol hedd fy Anwylyd.

...e doi dae'r ac uffern fawr yn eu gallu,
...dafu f'enaid bach i lawr, ſy'n llewygu;
...nd os tan ei aden wiw ca'i ymguddio,
...efai'r ſtorom waetha ei rhyw, nes el heibio.

HYMN XIX.

GWnawd cyfamod gwerthfawr rhad i fy ngwared
...hwng fy Iefu a'm hanwyl Dad o'm caethiwed
...r ammodau cadarn drud na all ond hynny,
...atan, uffern fawr a'r byd eu diddyfnu.

...oedd ei bleſer cyn bod byd, gyd â dynion,
...c yn caru 'roedd o hyd, ei gaſeion;
...c fe dalodd droſtynt iawn, pan oe'nt etto,
...lewn tywyllwch dudew'n llawn, heb ddihuno.

...yn rhoi bod i'r ddaear gron, na dim s' arni,
...wnawd y ddwyfol drefn hon, i'm gwaredu;
...esu addawodd golli ei wa'd, yn llawn fodlon,
...n ol arch ei anwyl Dad, tros elynion.

...e gas enw, fe gas glod, o ddiodde',
...e gas taliad penna erio'd, o'i gyſtuddiau;
...e gyflawnodd ei anwyl Dad ei addewidion,
...rodd' e' iddo am golli ei wa'd, yn bur ffyddlon.

HYMN

HYMN XX.

NID oes aberth o unrhyw, ymhlith miloedd,
Dâl am drofedd lleia o ryw, yn oes oefoed
Dim ond aberth dwyfol Ddyn, foddia Dduwdod
Angau Tywyſog nef ei hun, bwyſa mhechod.

Dyma'r angau'n abal fy, i droſglwyddo,
Fy enogrwydd dwfn du, i dir angof;
Fe wnaeth pechod y fath glwy' ar fy enaid,
'Does ond gwaed anfeidrol mwy all fy ngwared.

Dyma'r aberth mae erioed ſon am dani,
Ar y ddaear 'does yn bod, debyg iddi:
Mae Seraphiaid penna'r nen, yn rhyfeddu,
Wel'd eu Brenhin ar y pren, 'nawr yn trengu.

HYMN XXI.

DYMA gariad o'r fath rym, fyth na chlywir
Y cyffelyb iddo ddim gan greadur;
Tywyſog mawr y nefoedd fry, ar *Galfaria*,
Yn rhoi ei fywyd trofof fi, y ffieiddia'.

Gwaedd fy Nuw ar *Galfari*, fy'n rhoi'n agored,
Auraidd byrth y nefoedd fry, ag oedd gaued;
Y mae dwyfol wirion waed, o'r fath rinwedd,
Ag mae in' yn nhŷ ein Tad, wledd ddi-ddiwedd

Pan ho gelynion yn eu grym, am fy nghuro,
Minnau fy hun yn gallu dim i'w congcwero;
Lawr ar haeddiant gwaed ei groes, mi orphwyſa
Beth na faedda dwyfol loes ar *Galfaria*?

Deued daear, deued nef, bro a bryniau,
I foliannu ei enw ef, fu'n dioddeu;
Prynu'r etholedig fyd wnaeth E'n ffyddlon,
Trwy farwolaeth eitha drud, garcharorion.

DIWEDD.

BRITISH MUSEUM 20 AG 80